## Y Grawys

**Darlleniad 1: Mathew 4:1–14**

**Darlleniad 2: Ioan 12:20–32**

**Gweddi**

Ein Tad nefol, wrth i ni droi atat, cynorthwya ni i wybod beth i'w ddweud – dyro drefn ar ein meddyliau; dyro rym i'n llefaru; anfon dy Ysbryd Glân i eiriol drosom ac i agor ein calonnau i ti. Gwêl ni'n plygu ger dy fron, O! Dad. Tosturia wrthym y munudau hyn, yn dy annwyl Fab, Iesu Grist.

O Grist, a droediodd ffordd unig yr anial, cynorthwya ni i ymwrthod â themtasiynau. Dysg ni nad trwy rym y byd y mae canfod ffordd i fywyd, ond trwy gydnabod Duw yn Dad cariadus i ni, a thrwy wneud ei Air yn sail i'n perthynas ag ef ac â'n gilydd. Cynorthwya ni, O Grist, i'th ganlyn – drwy anialwch ein hoes – i'r bywyd sydd ar gael yn y Tad. Agor ein llygaid i'th weld; agor ein clustiau i'th glywed; agor ein calonnau i'th adnabod, er mwyn ein cadw rhag profedigaeth a'n gwared rhag yr Un Drwg.

O Grist, a gerddodd ffordd unig gwrthwynebiad a chasineb, nertha ni â'th Ysbryd ar gyfer pob brwydr a ddaw i ran y rhai sy'n barod i'th ganlyn di i'r pen. Yn ein hymdrech, rho i ni'r nerth i ymwrthod â dulliau'r byd o weithredu, ac ysbrydola ni â geiriau grasol a chariad. Agor ein llygaid i'th weld; agor ein clustiau i'th glywed, agor ein calonnau i'th adnabod, fel y gallwn adnabod a gwrthod drygioni a charu'r drwgweithredwr fel ni ein hunain.

O Grist, a wynebodd ffordd ddioddefaint ac ing, cryfha'r rhai sy'n cael eu llethu gan bryder a phoen, ofn, ac unigrwydd yr enaid. Cofia'r rhai sy'n gorfod wynebu penderfyniadau dirdynnol ac anodd. Caniatâ i ni bwyso arnat a chanolbwyntio ein myfyrdodau ar dy brofiadau ingol yng Ngardd Gethsemane. Agor ein llygaid i'th weld; agor ein clustiau i'th glywed; agor ein calonnau i'th adnabod, fel y gallwn, gyda thi, wynebu ein hofnau dyfnaf, a chanfod y ffydd i ddweud, 'Eithr nid yr hyn a fynnaf fi ond yr hyn a fynni di'.

O Grist, a weddnewidiwyd, ledia'r ffordd i lawr o esmwythyd a llonyddwch copa'r mynydd; deffro ni ac arwain ni i ganol realiti'r byd a'i anghenion. Cynorthwya ni i beidio â cherdded o'r tu arall heibio pan welwn angen yn rhythu arnom. Boed i'th weddnewidiad di droi'n weddnewid cyson a pharhaol ynom ni – yn fywyd a goleuni newydd ynom. Agor ein llygaid i'th weld, agor ein clustiau i'th glywed, agor ein calonnau i'th adnabod, i'n gwneud fel lefain byw ym mlawd y byd.

O Grist, buddugoliaeth y Groes, bydd yn ddrych cyson i ni yn ein pechod a'n trueni. Cynorthwya ni i ganfod mai yn dy aberth di ar Groes Calfaria y mae ein hunig obaith i ganfod y ffordd at gariad Duw, ac mai ynot ti y mae'r fuddugoliaeth dros angau a'r bedd. Agor ein llygaid i'th weld; agor ein clustiau i'th glywed; agor ein calonnau i'th adnabod, fel y gallwn ymglywed â'th eiriau grasol di dy hun, 'O Dad, maddau iddynt, oherwydd ni wyddant beth y maent yn ei wneud'.

O Dad, diolchwn i ti am aberth dy Fab, am iddo ymwrthod â ffordd y byd, am iddo wynebu rhwystrau a dioddefaint, am ei weddnewidiad, am ffordd y Groes – y cyfan er mwyn i bob un sy'n credu ynddo beidio â mynd i ddistryw, ond cael bywyd tragwyddol. O Dad, diolchwn i ti am y cyfan, a gofynnwn i ti faddau ein pechodau, yn Iesu Grist. Amen.

***Dafydd Hughes***